# Cynllun Lleihau Carbon

**Enw'r cyflenwr:** **Cwmpas**

**Dyddiad cyhoeddi:** **Gorffennaf 2025**

## Ymrwymiad i gyflawni sero net

Mae **Cwmpas** wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau sero net erbyn **2050**.

## Ôl troed allyriadau gwaelodlin

Mae allyriadau gwaelodlin yn gofnod o'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchwyd yn y gorffennol ac a gynhyrchwyd cyn cyflwyno unrhyw strategaethau i leihau allyriadau.

Felly, allyriadau gwaelodlin yw'r pwynt cyfeirio y gellir mesur gostyngiad mewn allyriadau yn ei erbyn.

| **Blwyddyn gwaelodlin:** 2022 (Ionawr i Ragfyr) |
|---|
| **Manylion ychwanegol yn ymwneud â'r cyfrifiadau allyriadau gwaelodlin:** |

Er bod Cwmpas wedi mesur ei Allyriadau Carbon er 2019 yn rhan o'n proses Achrediad y Ddraig Werdd, mae'r blynyddoedd dilynol yn cynnwys y cyfnod yr effeithiwyd arno gan Covid-19, sydd wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu. Ers dechrau ein taith i sero net yn 2019, rydym hefyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r data y gallwn ei gasglu a'i fesur ar draws Cwmpas 3, sydd bellach yn cynnwys amcangyfrifon manwl o allyriadau sy'n gysylltiedig â gweithio gartref, hefyd.

Fel y cyfryw, 2022 yw'r flwyddyn waelodlin fwyaf cywir, cymaradwy a chyson sydd wedi ein galluogi i bennu targedau a strategaethau lleihau carbon realistig yn unol â'n harferion gwaith newydd. Mae hefyd yn werth nodi bod y fformiwla i gyfrifo effaith gweithio gartref wedi'i seilio ar luosydd fesul nifer o weithwyr ac y bydd ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn amrywio ar sail nifer y cyflogeion.

Mae ffigurau gwaelodlin 2022 ar gyfer Cwmpas yn cynnwys cofnodion o allyriadau ar draws Cwmpas 1, 2 a 3 ac maent yn cynnwys yr elfennau canlynol:

**Cwmpas 1:**

- Nwy a ddefnyddiwyd ar y safle yn ein swyddfeydd wedi'i gyfrifo fel Cyfanswm gros blynyddol kWh a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adeilad, wedi'i rannu â throedfeddi sgwâr y gofod sy'n cael ei brydlesu gan Cwmpas a'i luosi â ffactorau trosi nwyon tŷ gwydr Llywodraeth y DU ar gyfer adroddiadau cwmnïau (Tanwyddau: Tanwyddau Nwyol – gwerth caloriffig gros kWh nwy naturiol).

**Cwmpas 2:**

- Trydan a ddefnyddiwyd ar y safle yn ein swyddfeydd wedi'i gyfrifo fel cilowatiau a ddefnyddiwyd, wedi'i luosi â ffactorau trosi nwyon tŷ gwydr Llywodraeth y DU ar gyfer adroddiadau cwmnïau (trydan y DU – trydan a gynhyrchwyd).

**Cwmpas 3:**

- Amcangyfrif o'r Trydan a Nwy a Ddefnyddiwyd ar gyfer Gweithio Gartref wedi'i gyfrifo yn ôl yr oriau cyfwerth ag amser llawn a weithiwyd bob wythnos, wedi'u lluosi â 45.4 wythnos waith a'u cymhwyso i luosydd Defra ar gyfer gweithio gartref.
- Teithiau busnes mewn car preifat wedi'u cyfrifo fel milltiroedd a deithiwyd wedi'u lluosi â ffactor trosi nwyon tŷ gwydr Llywodraeth y DU ar gyfer Teithiau Busnes – tir (ar sail milltiroedd ar gyfer "car cyffredin, tanwydd anhysbys").
- Teithio sy'n gysylltiedig â Gwaredu Gwastraff ac ailgylchu wedi'i gyfrifo fel nifer y milltiroedd a deithiwyd o swyddfeydd i safleoedd gwaredu gwastraff, wedi'i lluosi â ffactorau trosi nwyon tŷ gwydr Llywodraeth y DU ar gyfer adroddiadau cwmnïau (ar sail Cludo nwyddau - HGV (diesel i gyd) - Anhyblyg (>3.5 - 7.5 tunnell) ar lwyth 0%).
- Cludo a Dosbarthu i Fyny'r Gadwyn Gyflenwi fel gwerth sero wrth i ni weithio â'n cyflenwyr i ddarparu gwybodaeth gadarn a chywir yn ymwneud ag Allyriadau Carbon i'w chynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.
- Cludo a Dosbarthu i Lawr y Gadwyn Gyflenwi fel gwerth sero gan nad yw Cwmpas yn gwerthu nac yn dosbarthu unrhyw gynhyrchion.

| **Allyriadau'r flwyddyn waelodlin:** | |
|---|---|
| **Allyriadau** | **Cyfanswm (tCO2e)** |
| **Cwmpas 1** | **0.06** |
| **Cwmpas 2** | **3.37** |
| **Cwmpas 3 (ffynonellau wedi'u cynnwys)** | **81.82** |
| **Cyfanswm yr allyriadau** | **85.24** |

## Adroddiad ar allyriadau cyfredol


| **Blwyddyn adrodd: 2024** | |
|---|---|
| **Allyriadau** | **TOTAL (tCO2e)** |
| **Cwmpas 1** | **0.0** |
| **Cwmpas 2** | **0.0** |
| **Cwmpas 3 (ffynonellau wedi'u cynnwys)** | **85.30** |
| **Cyfanswm yr allyriadau** | **85.30** |

## Targedau lleihau allyriadau

Er mwyn parhau â'n cynnydd tuag at gyflawni sero net, rydym wedi mabwysiadu'r targedau lleihau carbon canlynol.

Rydym yn rhagamcanu y bydd allyriadau carbon yn lleihau dros y pum mlynedd nesaf i 63.94 tCO2e erbyn 2028. Mae hyn yn ostyngiad o 19.23%.

Mae cynnydd yn erbyn y targedau hyn i'w weld yn y graff isod:




# Prosiectau lleihau carbon

## Mentrau lleihau carbon a gwblhawyd

Mae'r mesurau a'r prosiectau rheoli amgylcheddol canlynol wedi'u cwblhau neu'u rhoi ar waith er gwaelodlin 2022. Rhwng 2022 a 2023, roedd y gostyngiad mewn allyriadau carbon a gyflawnwyd gan y cynlluniau hyn yn gyfwerth â 5.66 tCO2e, sef gostyngiad o 9.13%ge yn erbyn gwaelodlin 2022, a bydd y mesurau ar waith wrth gyflawni'r contract.

Yn ystod 2024, gwellom ein systemau i gofnodi milltiroedd teithio ychwanegol mewn tacsi sydd, ochr yn ochr â symudiad tuag at fwy o ddigwyddiadau wyneb-yn-wyneb ar draws sectorau, wedi arwain at gynnydd mewn defnyddio milltiroedd trafnidiaeth gyhoeddus a cheir, sydd wedi arwain at gynnydd yn ein hallyriadau carbon o gymharu â'r waelodlin.

Mae mesurau rydym wedi'u cymryd hyd yn hyn i ategu ein hymrwymiad i gyflawni sero net yn cynnwys:

- Cryfhau ein hadroddiadau amgylcheddol trwy gyfrifo allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio ar reilffyrdd ac yn yr awyr, yn ogystal â milltiredd cerbydau preifat a milltiroedd mewn tacsis.
- Mabwysiadu dull gweithio sy'n gyfan gwbl o bell, gan ddisodli ein swyddfeydd parhaol â mannau hyblyg sy'n cynnig desgiau yn ôl y gofyn a chyflogi staff ar sail gweithio gartref. Mae hyn wedi lleihau effaith amgylcheddol cymudo dyddiol,

rheolaidd yn sylweddol.

- Mabwysiadu arfer gweithio digidol yn ddiofyn, gan ailstrwythuro cefnogaeth fel y gellir ei darparu o bell a thoi targedau ar waith yn ymwneud â gweithio hybrid, sy'n cynnwys targed uchaf o gynnal 25% o fusnes sy'n canolbwyntio ar gleientiaid wyneb-yn-wyneb.
- Sefydlu gweithgor i adolygu a gwerthuso manteision posibl, gan gynnwys manteision amgylcheddol, wythnos waith 4 diwrnod.
- Plannu 450 o lasbrennau ar dir fferm yng Nghymru yn rhan o'n dathliadau pen-blwydd yn 40 oed.
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff ac annog cyfathrebu rheolaidd a rhannu arfer gorau trwy ein mewnrwyd, sy'n cynnwys gwybodaeth am gaffis hinsawdd, codi ymwybyddiaeth, ffotograffiaeth bywyd gwyllt, dan arweiniad staff, Diwrnod Dim Ceir.
- Datblygu cynllun gweithredu sero net ar gyfer y dyfodol a gweithgor i symud y gwaith hwn yn ei flaen.
- Gwneud ymrwymiad cyhoeddus i haneru allyriadau erbyn 2030, cyflawni sero net erbyn 2050 ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol trwy lofnodi Addewid Hwb Hinsawdd Busnesau Bach a Chanolig.
- Cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol yn thema drawsbynciol yn ein strategaeth gorfforaethol.
- Rhoi dodrefn swyddfa a deunyddiau ysgrifennu i ysgolion lleol.
- Datblygu offer i'w rhannu â mentrau cymdeithasol i'w helpu i ganfod eu heffaith ar yr amgylchedd a chymryd camau i leihau hyn.
- Symud i system ddi-bapur.
- Cynnal achrediad Lefel 3 â System Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd.
- Rhoi potel ddŵr y gellir ei hailddefnyddio i bob aelod staff i leihau'r defnydd o blastig wrth deithio i gyfarfodydd.
- Rhoi gofyniad safonol ar waith i hanner unrhyw ddarpariaeth fwyd mewn digwyddiadau wyneb-yn-wyneb fod yn fegan.

## Mentrau lleihau carbon yn y dyfodol

- Parhau i gefnogi'r grŵp Gweithredu Sero Net a rhoi camau gweithredu yn y Cynllun Sero Net ar waith.
- Bod pob prosiect yn cynnwys o leiaf un amcan sy'n ymwneud â gweithredu ar newid hinsawdd.
- Symud i 100% o ynni adnewyddadwy ar gyfer ein seilwaith TG a'n canolfan ddata.
- Datblygiad asesiad o'r effaith amgylcheddol i'w ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau.
- Buddsoddi mewn mentrau cymdeithasol sy'n cefnogi gwella'r amgylchedd.
- Parhau i archwilio rhagor o fentrau gwrthbwyso carbon.

- Creu pecyn cymorth i gleientiaid mentrau cymdeithasol er mwyn iddynt ddeall eu meysydd effaith, a'u hallyriadau, a chreu eu cynlluniau gweithredu eu hunain i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Parhau â'n hymrwymiad i ddefnyddio technoleg i leihau ein hôl troed carbon trwy weithio gartref, cyfarfodydd a digwyddiadau rhithwir, arferion gweithio di-bapur a defnyddio systemau rheoli e-bost i leihau nifer a lled band negeseuon e-bost.
- Parhau â'n hymrwymiad i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy – gan sicrhau bod modd cyrraedd digwyddiadau wyneb-yn-wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Archwilio ffyrdd i wella ein hadroddiadau trwy fesur effeithiau carbon ein hôl troed digidol a chydweithio â'n cadwyni cyflenwi i ddatblygiadau adroddiadau cadarn ar allyriadau carbon i fyny'r gadwyn gyflenwi.
- Nodi cyflenwyr moesegol sydd â pholisïau amgylcheddol / cynlluniau sero net ac adolygu'r rhain yn ystod prosesau caffael.
- Prynu cynhyrchion ecogyfeillgar / effeithlon o ran ynni.
- Darparu mentrau a buddion staff fel cynlluniau beicio i'r gwaith, prydlesi ceir trydan, diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer prosiectau amgylcheddol.
- Cydweithio â phartneriaid a chleientiaid i sicrhau bod effaith amgylcheddol yn ffactor allweddol wrth wneud penderfyniadau.
- Hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chorfforaethau B sy'n creu cynhyrchion neu wasanaethau sydd o fudd i'r amgylchedd i'n cleientiaid / cadwyni cyflenwi.
- Darparu gwybodaeth a hyfforddiant i staff ar faterion sy'n ymwneud â mynd i'r afael â newid hinsawdd a diogelu natur.

## Datganiad a llofnodi

Mae'r Cynllun Lleihau Carbon hwn wedi'i lunio yn unol â PPN 006 ac arweiniad cysylltiedig ynghyd â'r safon adrodd ar gyfer Cynlluniau Lleihau Carbon.

Mae allyriadau wedi'u hadrodd a'u cofnodi'n unol â'r safon adrodd gyhoeddedig ar gyfer Cynlluniau Lleihau Carbon a safon gorfforaethol y Protocol Adrodd ar Nwyon Tŷ Gwydr[13] ac mae'n defnyddio ffactorau trosi allyriadau priodol y llywodraeth ar gyfer adroddiadau cwmnïau ar nwyon tŷ gwydr.[14]

Adroddiad ar allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 yn unol â gofynion SECR (yn ôl y gofyn) ac adroddwyd ar yr is-set ofynnol o allyriadau Cwmpas 3 yn unol â'r safon adrodd gyhoeddedig ar gyfer Cynlluniau Lleihau Carbon a'r Safon Cadwyn Gwerth Corfforaethol (Cwmpas 3).[15]

Mae'r Cynllun Lleihau Carbon hwn wedi'i adolygu a'i lofnodi gan y bwrdd cyfarwyddwyr (neu gorff rheoli cyfatebol).

## Llofnodwyd ar ran y cyflenwr:

**Llofnod:** Bethan Webber....................................

**Dyddiad:** 24/06/2025.................................